



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Bil yr Amgylchedd Crynodeb o'r Papur Gwyn

Pam mae arnom angen Bil yr Amgylchedd?

- ❖ Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi nodi yn ei ddatganiad **Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus** sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i uno'r gwaith o gynllunio a chyflwyno polisiau a gwasanaethau er mwyn cyflawni twf, cadernid ac amrywiaeth cynaliadwy yn y tymor hir, a sicrhau effeithlonrwydd adnoddau a mynd i'r afael â thlodi.
- ❖ Mae'r datganiad yn nodi'n glir y bydd rhaid i ni gydnabod gwerth ein hadnoddau naturiol a'r gwasanaethau neu'r manteision maent yn eu cynnig i gymdeithas er mwyn diogelu ffyniant Cymru yn y dyfodol.
- ❖ Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** yn cynnwys nifer o ymrwymadau mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, gan gynnwys cyflwyno **Bil yr Amgylchedd** ar gyfer Cymru.
- ❖ Mae arnom angen fframwaith deddfwriaethol modern a fydd yn galluogi dull unedig o reoli ein hadnoddau naturiol, a hefyd yn cydnabod eu gwerth a'r cyfleoedd maent yn eu cynnig.

Pam mae arnom angen Bil yr Amgylchedd?

- ❖ Mae'r dystiolaeth yn glir mewn adroddiadau diweddar fel **Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU** o gyflwr ecosystemau'r DU, sy'n dangos dirywiad mewn gwasanaethau ecosystemau a hefyd dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth a gofnodwyd yn **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2013**
- ❖ Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ceir cydnabyddiaeth ryngwladol o'r angen am ddull mwy unedig o reoli ein hadnoddau naturiol, gan gydnabod gwerth ein hecosystemau'n well, a'r gwasanaethau maent yn eu cynnig.
- ❖ Dangosodd ein hymgyngoriad yn 2010 a'r papur yn 2012, **Papur Gwyrdd Cynnal Cymru Fyw**, gefnogaeth eang i'r dull ffres hwn o weithredu o ran cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru ar lefel genedlaethol a lleol.
- ❖ Mae'r **Papur Gwyn** hwn yn datgan y newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol yn awr er mwyn galluogi dull unedig o reoli ein hadnoddau naturiol.

Beth yw nod y Bil?

- ❖ Sicrhau bod gennym fframwaith deddfwriaethol priodol yn ei le er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd unedig.
- ❖ Rhoi dulliau llywodraethu yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ac yn rheoli adnoddau naturiol Cymru er mwyn sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol parhaus, a manteision amgylcheddol hefyd.
- ❖ Cyflawni canlyniadau gwell i Gymru drwy helpu i gael gwared ar gymhlethdod diangen a symleiddio prosesau.
- ❖ Mae egwyddorion y dull ecosystemau o weithredu wrth galon y Bil, gan sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth briodol i werth ein hecosystemau (gweler sleidiau 22-24).

Sut cyflawnir y nod hwn?

Ceir pedair thema allweddol ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd:

- Mae **Thema 1** (Pennod 2) yn edrych ar uno'r fframweithiau statudol presennol ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.
- Mae **Thema 2** (Pennod 3) yn ystyried cynigion i sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru adnoddau deddfwriaethol priodol i'w alluogi i weithredu dull unedig o reoli adnoddau naturiol.
- Mae **Thema 3** (Pennod 4) yn datgan camau gweithredu er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu defnyddio mor effeithiol â phosib ac yn lleihau gwastraff.
- Mae **Thema 4** (Pennod 5) yn datgan cynigion ar gyfer symleiddio ac egluro'n well y gyfraith ar gyfer nifer o gyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol presennol.

Thema 1: Rheoli Adnoddau Naturiol

Nod:

- ❖ Uno'r fframweithiau statudol presennol ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Cyflawni hyn drwy sefydlu'r canlynol:
 - **Diffiniad cyfreithiol ar gyfer 'adnoddau naturiol'**
 - **Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol**
 - **Dull o weithredu seiliedig ar ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol**
 - **Cyfrwng i adrodd yn ôl ar sefyllfa adnoddau byd natur**

Thema 1: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Sefydlu diffiniad cyfreithiol ar gyfer Adnoddau Naturiol yng Nghymru

- ❖ Rydym yn ymgynghori ar y diffiniadau cyfreithiol canlynol, a fydd yn sail i'r cynigion ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Mae'r diffiniadau'n cadarnhau egwyddorion y dull ecosystemau o weithredu a datblygiad cynaliadwy.

- Adnoddau naturiol – bydd hyn yn ystyried y manteision y bydd adnoddau naturiol yn eu cynnig sy'n ehangach na dim ond y rhai sy'n cael eu defnyddio er budd economaidd, er enghraifft: aer a dŵr, daearegol a thirluniau, bioamrywiaeth ac ecosystemau.
- Rheolaeth Integredig ar Adnoddau Naturiol – dyma broses ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau sy'n cydlynu'r gwaith o gynnal a chadw, gwella a defnyddio adnoddau naturiol fel bod posib sicrhau'r manteision tymor hir gorau posib i bobl, amgylchedd ac economi Cymru
- Rheolaeth Gynaliadwy – dyma gam gweithredu ar y cyd sy'n ofynnol er mwyn rheoli'r gwaith o gynnal a chadw, gwella a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd, neu yn unol â chyfradd, sy'n galluogi i bobl a chymunedau ddarparu ar gyfer eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnal hefyd systemau cynnal bywyd byd natur. Trwy wneud hynny, sicrhau nad yw manteision y defnydd i'r genhedlaeth bresennol yn lleihau'r potensial am ddiwallu anghenion a dyheadau cenedlaethau'r dyfodol.

Thema 1: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Sefydlu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

- ❖ Bydd Polisi Adnoddau Naturiol yn datgan cyfeiriad lefel uchel ar gyfer yr holl bolisïau cysylltiedig ag adnoddau naturiol yng Nghymru, gan gynnwys cyfleoedd, tueddiadau a blaenoriaethau allweddol ar sail genedlaethol.
- ❖ Bydd yn ystyried ble gall rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol helpu i sicrhau'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gorau posib yn awr ac yn y tymor hir.
- ❖ Bydd yn eiddo i Weinidogion Cymru ac yn cynnwys targedau, mesurau a blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol sy'n cyfrannu at y canlyniadau y cytunwyd arnynt gan y Llywodraeth ar y lefel genedlaethol ac yn helpu gyda gweithredu'r cyfrifoldebau sydd wedi'u datgan yn neddfwriaeth yr UE.

Thema 1: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Sefydlu dull o weithredu seiliedig ar ardal er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol

- ❖ Mae dull o weithredu seiliedig ar ardal yn darparu rôl i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer hwyluso'r gwaith o gydlynu cynnal a chadw, gwella a defnyddio adnoddau naturiol mewn ardal benodol.
- ❖ Y nod yw darparu eglurder i randdeiliaid a chyrrff cyflawni eraill mewn perthynas â ble mae pob cyfle a her ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn bodoli.
- ❖ Ni chynigir bod proses neu ardaloedd penodol yn cael eu rhagnodi ar wyneb y Bil. Bydd y dull o weithredu'n cynnwys digon o hyblygrwydd er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu ac addasu'r dull yn effeithiol.
- ❖ Yn ogystal ag ystyried adnoddau naturiol, bydd rhaid i'r dull o weithredu seiliedig ar ardal roi ystyriaeth benodol i sut gall rheoli adnoddau naturiol helpu Cymru i addasu i effeithiau newid hinsawdd a'u lliniaru.

Thema 1: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Mekanwaith i adrodd ar sefyllfa adnoddau naturiol

- ❖ Cynigir rhoi dyletswydd ar Cyfoeth Adnoddau Naturiol i baratoi adroddiad o leiaf bob 5 mlynedd ar sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru.
- ❖ Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau cyffredinol, llwyddiannau a heriau i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Thema 2: Cyfleoedd i gyflawni

Nodau:

- ❖ Darparu i Cyfoeth Naturiol Cymru adnoddau ar gyfer dulliau gwell o weithio a fydd yn hybu manteision economaidd a chymdeithasol ehangach, yn ogystal â manteision amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer:
 - Talu am wasanaethau ecosystemau
 - Cytundebau rheoli
 - Rheolau Rhwymo Cyffredinol
 - Grym arbrofol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer profi dulliau arloesol o weithredu
- ❖ Galluogi newid deddfwriaethol yn y dyfodol i'n deddfwriaeth sylfaenol, er mwyn cyflwyno'n llawn ddull unedig o weithredu os oes rhwystrau o hyd sy'n cyfyngu ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni mewn ffordd integredig.

Thema 2: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Cyfoeth Naturiol Cymru – ysgogi'r defnydd o fecanweithiau marchnad ar gyfer gwasanaethau ecosystemau

- ❖ Rydym yn ceisio barn am y budd a geir o greu pwerau newydd sy'n rhoi rôl benodol i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn datblygu mecanweithiau marchnad i gefnogi rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.
- ❖ Gallai hyn gynnwys 'hyrwyddo' cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE), sefydlu achrediad a darparu sicrwydd ar gyfer cynlluniau, neu ddim ond darparu gwybodaeth a chyingor i eraill.
- ❖ Rydym wedi comisiynu astudiaeth i edrych ar y cyfleoedd ar gyfer TWE yng Nghymru. Bydd y darganfyddiadau'n ein helpu ni i lunio ein cynigion yn derfynol, gan gynnwys camau gweithredu eraill y mae'n rhaid i ni eu cymryd er mwyn ysgogi mecanweithiau marchnad.

Thema 2: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Cyfoeth Naturiol Cymru – ymestyn cwmpas cytundebau rheoli

- ❖ Mae cytundeb rheoli'n fecanwaith ariannol ar gyfer sicrhau dull gweithredu penodol rhwng dau barti ac fe'i defnyddir yn gyffredin i gyflawni cadwraeth natur.
- ❖ Mae'r cynnig ar gyfer pŵer newydd i lunio cytundebau rheoli gydag unrhyw berchennog tir neu fusnes er mwyn cyflawni'r camau gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Byddai hyn yn ehangu'r pwerau presennol sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â chytundebau rheoli.

Thema 2: Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnig: Rheolau Rhwymo Cyffredinol

- ❖ Mae Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn swyddogaethau rheoleiddio ar lefel is nad ydynt bob amser yn mynnu trwyddedau neu ganiatâd ffurfiol.
- ❖ Rydym yn ceisio barn am sicrhau pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru, drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth, i wneud darpariaeth ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol mewn perthynas â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.
- ❖ Gallai fod yn gyfle i leihau biwrocratiaeth a gall helpu gyda dull mwy cyson a chymesur o reoleiddio.

Thema 2: Cyfleoedd i gyflawni

Cynnig: Dulliau arloesol o weithredu gyda rholaeth unedig ar adnoddau naturiol

- ❖ Efallai fod achlysuron pan nad yw'n bosib, neu pan mae'n fwy anodd, i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.
- ❖ Rydym yn ceisio barn am bŵer arbrofol newydd i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chyflawni mewn ffyrdd mwy arloesol.
- ❖ Ymhlith yr enghreifftiau posib mae cynlluniau masnachu dalgylch (yn enwedig mewn perthynas â Thalu am Wasanaethau Ecosystemau) ac arbrofion tymor byr yng nghyswllt dulliau technegol o ganiatáu ar gyfer arloesi technolegol, a dulliau rheoli y gellir eu haddasu.

Thema 2: Cyfleoedd i gyflawni

Cynnig: Pwerau i egluro'r gwaith o unioni dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru a deddfwriaeth sylfaenol arall gyda'r pwrpas lefel uchel newydd

- ❖ Bydd y cynnig hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau yn y dyfodol i'r deddfwriaeth sylfaenol bresennol os gellir dangos ei bod yn cyfyngu ar Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cyflawni rheolaeth integredig ar adnoddau naturiol.
- ❖ Os oes tystiolaeth glir bod rhaid wrth ddiwygiadau yna byddwn yn ceisio adlewyrchu'r newidiadau hyn ar wyneb y Bil.
- ❖ Byddai unrhyw ddiwygiadau o'r fath yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â rhwymedigaethau'r Undeb Ewropeaidd ac ni fyddai'n dileu unrhyw warchodaeth.

Thema 3: Effeithlonrwydd Adnoddau

Nodau:

❖ Sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu defnyddio mor effeithiol â phosib a lleihau gwastraff. Ceir cynigion penodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwahanu a chasglu gwastraff, er mwyn helpu gyda sbarduno buddsoddi yn y datrysiadau rheoli gwastraff mwyaf cynaliadwy ar gyfer Cymru
- Newidiadau i'r cynllun talu am Fagiau Siopa, sy'n ceisio ymestyn y pwerau

Thema 3: Effeithlonrwydd Adnoddau

Cynnig: Helpu i wella ymhellach yr arfer o wahanu, casglu ac ailgylchu gwastraff yng Nghymru

- ❖ Rydym wedi pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer ailgylchu gwastraff yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni sefydlu polisïau cadarn ond cymesur er mwyn cyflawni lefelau uchel o ailgylchu o safon uchel. Yn y pen draw, mae mwy o ailgylchu'n llesol i economi Cymru ac i'r amgylchedd.
- ❖ Rydym yn cynnig rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflawni'r canlynol:
 - Gofyn i fusnesau a'r sector cyhoeddus gyflwyno eu gwastraff i'w ailgylchu ar wahân ar gyfer ei gasglu;
 - Gofyn i gasglwyr gwastraff gasglu deunyddiau penodol ar wahân;
 - Gwahardd llosgi deunyddiau penodol;
 - Gwahardd claddu deunyddiau penodol mewn safleoedd tirlenwi; a
 - Gwahardd cael gwared ar wastraff bwyd i systemau carthffosiaeth.

Thema 3: Effeithlonrwydd Adnoddau

Cynnig: Gwella ymhellach y cynllun talu am Fagiau Siopa

- ❖ Mae'r drefn bresennol o dalu am fagiau siopa wedi bod yn llwyddiannus iawn er mwyn rhoi sylw i fagiau siopa untro. Fodd bynnag, ni allwn ymyrryd ar hyn o bryd ag unrhyw fathau eraill o fagiau siopa sydd â photensial i niweidio'r amgylchedd drwy gael gwared arnynt yn amhriodol, fel 'bagiau am oes'.
- ❖ Mae'r cynigion yn ceisio ymestyn ein pwerau galluogi, a dim ond os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn dynodi bod hyn yn angenrheidiol fydd y pwerau'n cael eu hymarfer.
- ❖ Dim ond ar ôl ymgynghori helaeth pellach gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys adwerthwyr a gweithgynhyrchwyr, fyddai rheoliadau'n cael eu llunio.

Thema 4: Rheolaeth graffach

Nod:

❖ Symleiddio ac egluro'r gyfraith ar gyfer nifer o gyfundrefnau rheoleiddiol amgylcheddol presennol mewn perthynas â'r canlynol:

- Rheoli trwyddedau morol
- Rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn
- Rheoli Llifogydd a Dŵr
- Rheoli draenio tir

Thema 4: Galluogi Rheolaeth Graffach

Cynnig: Hybu symleiddio neu egluro'r gyfraith mewn perthynas â'r canlynol:

Trwyddedau Morol

- ❖ Byddai'r pwerau newydd yn darparu dull mwy hyblyg ac addas i bwrpas ar gyfer codi ffioedd am drwyddedau morol.
- ❖ Bydd pwerau i godi ffioedd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddigolledu eu costau, lle bo hynny'n briodol ac yn rhesymol, a bydd yn darparu system fwy effeithiol ac effeithlon o drwyddedu morol ar gyfer Cymru.

Rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn

- ❖ Mae angen gwella ein deddfwriaeth pysgodfeydd yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn addas i bwrpas, yn hawdd ei deall ac yn arwain at ecosystemau Pysgodfeydd Pysgod Cregyn cadarnach a mwy amrywiol.
- ❖ Mae'r cynigion ar gyfer dull symlach a mwy integredig o weithredu, heb fiwrocratiaeth diangen.

Thema 4: Galluogi Rheolaeth Graffach

Cynnig: Hybu symleiddio neu egluro'r gyfraith mewn perthynas â'r canlynol:

Rheoli Llifogydd a Dŵr

- ❖ Bydd y cynigion yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno gorchymyn i “dacluso'r” ddeddfwriaeth yn barod ar gyfer Bil cydgrynhoi yn y dyfodol.
- ❖ Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu rhoi sylw i unrhyw faterion cysylltiedig â'r gwahaniaethau rhwng dwy ddarpariaeth neu fwy yn y ddeddfwriaeth bresennol, symleiddio gweithdrefnau cymhleth yn y ddeddfwriaeth a chywiro unrhyw gamgymeriadau.

Draenio Tir

- ❖ Bydd y cynnig yn datrys problem a achoswyd gan fwlch yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas â gorfodi'r gorchmynion sydd wedi'u gwneud gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i sicrhau mynediad i dir er mwyn archwilio cydymffurfiaeth â gorchymyn.

Beth rydym eisiau ei gyflawni....

Ar gyfer cymunedau ac i drechu tlodi

- ❖ Ceir cyswllt clir rhwng trechu tlodi a defnyddio adnoddau naturiol. Bydd y cynigion ar gyfer dull seiliedig ar ardal o weithredu'n sicrhau bod gennym yr wybodaeth briodol am bob her a chyfle mewn gwahanol ardaloedd. Bydd y dystiolaeth hon yn help fel sail i benderfyniadau ynghylch sut gallwn wella ein hamgylchedd ar gyfer ein cymunedau – yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.
- ❖ Rydym eisiau i'r dull newydd hwn o weithredu helpu i dargedu'n well y buddsoddiad mewn gwelliannau lleol, neu gefnogi penderfyniadau ynghylch cyfleoedd datblygu.
- ❖ Bydd y dull seiliedig ar ardal arfaethedig o gynllunio adnoddau naturiol yn helpu i feithrin cadernid yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Drwy feithrin cadernid, er enghraifft, yn wyneb achosion a chanlyniadau newid hinsawdd, rydym yn gwella gallu grwpiau a chymunedau agored i niwed i wrthsefyll pob her ac yn helpu i atal mwy rhag syrthio i grafangau tlodi.

Beth rydym eisiau ei gyflawni....

Ar gyfer busnesau a'r economi

- ❖ Bydd cyflwyno dull unedig, seiliedig ar ardal, o reoli ein hadnoddau naturiol yn helpu i symleiddio prosesau, bydd o fudd i fusnesau a bydd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- ❖ Hefyd, bydd y Bil yn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth briodol gennym yn gynharach er mwyn datgan y cyfleoedd datblygu priodol yn y llefydd priodol i gefnogi ein huchelgais ar gyfer twf yn y tymor hir.
- ❖ Bydd y Bil yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau'r budd gorau posib yn y tymor hir o'n hadnoddau naturiol. Dyma wir gyfle i helpu gyda sbarduno twf cynaliadwy a defnyddio marchnadoedd newydd mewn sectorau amgylcheddol i'r eithaf, fel storio carbon a rheoli dŵr.

Edrych ymlaen

- ❖ Mae ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn cau ar 15^{fed} Ionawr 2014
- ❖ Cynhadledd Rheoli Adnoddau Naturiol: 25^{ain} Tachwedd
- ❖ Cynhadledd a digwyddiadau ymgysylltu:
 - 2^{il} Rhagfyr - Merthyr Tudful
 - 4^{ydd} Rhagfyr - Aberystwyth
 - 9^{fed} Rhagfyr – Cyffordd Llandudno
- ❖ Mae'n fwriad ar hyn o bryd i Fil yr Amgylchedd gael ei gyflwyno yn 2015. Gall yr amserlen hon newid.

Sut mae'r Papur Gwyn yn gweithredu 12 egwyddor y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol?



Bil yr Amgylchedd

Egwyddor y CAF	Pwnc	Disgrifiad Byr	Sut mae'r cynigion ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn gweithredu'r egwyddorion
1	Dewis Cymdeithasol	Mae'r amcanion ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw yn ddewis cymdeithasol	Pwrpas y rheolaeth ar adnoddau naturiol yw gweithredu fel proses gynllunio a phennu blaenoriaethau – gan ddarparu tystiolaeth a chyngor i eraill sydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ar y dewis ar gyfer cymdeithas. Mae wedi'i chreu i ymgorffori'n llawn y fframwaith ar gyfer pennu'r agenda Cenedlaethau'r Dyfodol.
2	Penderfyniad au Lleol	Dylid datganoli'r rheolaeth ar adnoddau naturiol i'r lefel isaf briodol	Un egwyddor allweddol yn y ddogfen Polisi Adnoddau Naturiol yw cydnabod a mynegi'n glir y lefel fwyaf priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
3	Effeithiau Cyfagos	Dylai rheolwyr adnoddau naturiol ystyried effeithiau eu gweithgareddau ar ecosystemau cyfagos ac ecosystemau eraill	Nid yw'r dull o weithredu seiliedig ar ardal yn rhagnodol. Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod hyblygrwydd a bod cwrpas daearyddol y polisi neu'r broblem reoli yn cael ei lunio'n briodol, o ystyried rhyng-gysylltiad prosesau a swyddogaethau ecosystemau a'r gwasanaethau sy'n llifo ohonynt.
4	Sbardun Economaidd	Rheoli'r ecosystem mewn cyd-destun economaidd	Mae'n rhaid i'r Ddogfen Polisi Adnoddau Naturiol adlewyrchu'r broses genedlaethol ar gyfer pennu canlyniadau sydd i gael ei sefydlu drwy'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, a fydd yn cynnwys canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Hefyd mae'n rhaid iddo gydnabod a rhoi sylw i fesurau ar gyfer rheoli mecanweithiau marchnad.
5	Cadernid Ecosystemau	Cadwraeth strwythur a swyddogaeth ecosystemau er mwyn cynnal gwasanaethau ecosystemau	Dylai dogfen y Polisi Cenedlaethol a'r dull o weithredu seiliedig ar ardal roi blaenoriaeth i strwythur a swyddogaeth sylfaenol yr ecosystemau sylfaen, gan roi blaenoriaeth pan maent yn cyfrannu at y canlyniadau cenedlaethol. Bydd Cadernid Ecosystemau'n ddangosydd llwyddiant allweddol.

Bil yr Amgylchedd

6	Cyfyngiadau Amgylchedd ol	Rhaid rheoli ecosystemau oddi mewn i gyfyngiadau eu swyddogaeth	Dylai'r polisiâu sicrhau bod y strategaethau rheoli a fabwysiedir yn realistig a bod modd eu cyflawni yn nhermau gweithio gyda phrosesau a chyfyngiadau naturiol os ydynt yn hysbys. Dylai'r ddogfen Polisi a'r dull o weithredu seiliedig ar ardal gynnwys camau gweithredu i wella cadernid ecosystemau, fel bod strategaethau ac ymyriadau rheoli cadarnhaol yn cael eu mabwysiadu i warchod rhag y potensial o gyrraedd terfynau amgylcheddol.
7	Graddfa o Ran Lle ac Amser	Dylid sicrhau rheolaeth integredig ar adnoddau naturiol yn unol â graddfeydd priodol o ran lle ac amser	Nid yw'r Papur Gwyn yn diffinio ffiniau ar gyfer y dull o weithredu seiliedig ar ardal – bydd y dull yn cynnwys digon o hyblygrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu ac addasu'r dull o weithredu'n effeithiol, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd wrth law ac ymarferoldeb y cyflawni.
8	Dull Gweithredu Tymor Hir	Cydnabod y graddfeydd amrywiol o ran amser a'r rhai sy'n nodweddu prosesau ecosystemau, dylid pennu amcanion ar gyfer y tymor hir	Mae hyn yn gyson â bil Cenedlaethau'r Dyfodol a phennu canlyniadau cenedlaethol a lleol tymor hir. Mae'n rhaid i ddogfen y Polisi Cenedlaethol a'r dull o weithredu seiliedig ar ardal ddatblygu polisi tymor hir (30-50 mlynedd) i sicrhau'r manteision gorau posib i les Cymru.
9	Rheoli Newid	Rhaid i'r rheolwyr gydnabod bod newid yn anochel	Er mai bwriad y ddogfen bolisi yw dangos cyfeiriad cyffredinol y symud, ni ddylai gyfyngu ar allu polisi neu ymyrraeth rheoli penodol i ymateb i'r angen am newid. Awgrymir y gellid gwerthuso hyn drwy brawf "addasu" syml, a allai fod yn rhan o'r broses SA/SEA. Mae Cynnig NRM11 yn y Papur Gwyn yn bŵer galluogi ar gyfer Gweinidogion Cymru, i'w galluogi i wneud newidiadau posib yn y dyfodol i'r fframwaith deddfwriaethol, ble maent yn berthnasol i swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, neu os ydynt yn gweithredu fel rhwystrau o ran rheolaeth integredig ar adnoddau naturiol.

<p>10</p>	<p>Amrywiaeth Fiolegol</p>	<p>Dylai'r rheolaeth geisio sicrhau integreiddiad a chydbwysedd priodol rhwng cadwraeth a defnydd o amrywiaeth fiolegol</p>	<p>Un o brif amcanion sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol newydd yw sicrhau bod ecosystemau'n gadarnach ac yn parhau i gyflawni manteision tymor hir i Gymru. Mae'r Papur Gwyn yn cefnogi ystyried y model gwasanaethau ecosystemau, sy'n gosod amrywiaeth fiolegol wrth galon y gwasanaethau cefnogi (system) sydd, yn ei dro, yn sail i ystod o wasanaethau ecosystemau pwysig, darpariaethol, rheoleiddiol a diwylliannol. Mae disgwyl y bydd rhai o ddangosyddion allweddol y ddogfen bolisi genedlaethol yn gysylltiedig â bioamrywiaeth.</p>
<p>11</p>	<p>Tystiolaeth</p>	<p>Dylai'r rheolaeth ystyried yr holl ffurfiau ar wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth, arloesi ac arferion gwyddonol a lleol</p>	<p>Mae'r dull seiliedig ar ardal yn seiliedig ar gasglu gwybodaeth berthnasol o ystod eang o ffynonellau er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn. Bydd gwybodaeth leol, drwy ymgysylltu â byrddau gwasanaeth lleol, ac ymgysylltu cymunedol, yn ffactor bwysig. Gall y broses ymgynghori gynnwys galw am dystiolaeth o bob sector mewn cymdeithas er mwyn casglu gwybodaeth a chynghor neu ddatblygu ymhellach strategaethau rheoli amgen ar gyfer adnoddau naturiol.</p>
<p>12</p>	<p>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid</p>	<p>Dylai'r rheolaeth gynnwys yr holl sectorau perthnasol mewn disgyblaethau cymdeithasol a gwyddonol</p>	<p>Bydd rhaid cynnal ymgynghoriad ar y Ddogfen Bolisi Genedlaethol a byddai'r dull o weithredu seiliedig ar ardal yn cynnwys datganiad am gynnwys y gymuned. Er na fydd dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu datgan ar wyneb y ddeddfwriaeth, bydd disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru edrych ar sut mae integreiddio'r prosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid presennol sy'n digwydd ar draws meysydd ehangach eu swyddogaethau.</p>